Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

**Ysgol Gymraeg Gwynllyw**
**Heol Folly**
**Trefddyn**
**Pontypool**
**Torfaen**
**NP4 8JD**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gymraeg Gwynllyw wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella safonau, yn enwedig safonau bechgyn a disgyblion mwy abl

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud y cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol, ac yn y gwersi mwyaf effeithiol maent yn gwneud cynnydd cryf. Yn ogystal, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, gan gyfrannu ar lafar a chyflawni tasgau darllen yn llwyddiannus ac ysgrifennu. Maent hefyd yn cyflawni tasgau rhif ar draws y cwricwlwm yn addas. Mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd yn Ebrill 2019.

Mewn llawer o wersi mae disgyblion yn adalw eu dysgu blaenorol i gof yn briodol ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn dangos dealltwriaeth aeddfed o agwedd Martin Luther at Iddewon a gallant esbonio'r gwahaniaethau rhwng gwrth-Semitiaeth a gwrth-Iddewiaeth yn huawdl. Gwnant gysylltiadau yn eu dysgu gan ddefnyddio eu dysgu blaenorol yn gelfydd i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol i sefyllfaoedd newydd. Mewn ychydig o wersi nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, yn bennaf oherwydd diffygion yn yr addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus a pharchus ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer yn mynegi eu hunain yn glir ar lafar gan ddefnyddio ystod briodol o dermau pynciol i esbonio eu barn. Mae'r disgyblion hyn yn awyddus i drafod gyda phartner neu gyfrannu atebion mewn trafodaeth ddosbarth. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig atebion o safon uchel iawn gan ddatblygu esboniadau soffistigedig. Mae geiriau Saesneg yn britho cyfraniadau lleiafrif o ddisgyblion ond, o dderbyn cefnogaeth eu hathrawon a chyd-ddisgyblion, maent yn datblygu eu geirfa a'u cystrawen Gymraeg yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn dawedog ac nid ydynt yn gwneud datblygiad digon cadarn yn eu medrau llafar.

Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn effeithiol ac yn dod i gasgliadau perthnasol am yr ystyron sydd ymhlyg mewn testunau. Gallant gasglu gwybodaeth o fwy nac un testun er mwyn crynhoi'r wybodaeth i bwrpas yn briodol. Mae disgyblion uwch eu gallu yn fedrus wrth ddadansoddi a gwerthuso testun er enghraifft wrth ddadansoddi'r awyrgylch yng ngwaith Arthur Conan Doyle, y gynghanedd mewn cerdd gan Emyr Lewis neu drafod priodoldeb ffynonellau am y rhyfel byd cyntaf.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ar draws y pynciau ac yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol gan ddefnyddio paragraffau'n addas ac atalnodi'n briodol. Mae mwyafrif yn ysgrifennu'n addas mewn ystod o ffurfiau ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu'n ysgrifenwyr hyderus ac yn defnyddio ymadroddion a geirfa estynedig i gyfoethogi eu gwaith. Fodd bynnag, mae camsillafu, cystrawen letchwith neu ddefnydd o eiriau Saesneg yn britho gwaith lleiafrif y disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol gan gymhwyso'r pedair rheol rhif yn addas. Maent yn adio a thynnu degolion a thalgrynnu rhifau sy'n cynnwys degolion yn llwyddiannus. Gall y disgyblion uwch eu gallu lunio a dehongli graffiau amrywiol yn effeithiol a ffurfio casgliadau synhwyrol. Maent yn llunio diagramau gwasgariad yn briodol gan adnabod cydberthyniad. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd i ar draws y cwricwlwm yn addas. Maent yn defnyddio data wedi'i grwpio i labelu mapiau yn briodol, yn defnyddio hafaliadau yn gywir ac yn trin graffiau yn addas.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Er enghraifft, maent yn defnyddio sgiliau codio yn briodol wrth drin meddalwedd i gynllunio gemau digidol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd i ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth i amrywiaeth o bwrpasau yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn briodol. Er enghraifft, dangosant greadigrwydd wrth ddefnyddio symudiadau'r corff i greu cymeriadau yn eu gwersi drama. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn addas er enghraifft wrth gyfrifo onglau i ddatrys problemau neu wrth drefnu ac esbonio ffactorau sydd yn achosi llifogydd yn naearyddiaeth.

## A2. Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

Ers yr arolygiad craidd mae'r ysgol wedi cryfhau'r ddarpariaeth i gefnogi addysgu ac asesu i ymateb i anghenion ysgol gyfan a staff unigol. Mae strategaeth dysgu proffesiynol y rhaglen gymell yn darparu cefnogaeth werthfawr i holl athrawon yr ysgol. Mae arweinwyr wedi addasu'r sesiynau dysgu proffesiynol yn synhwyrol er mwyn rhoi mwy o amser i athrawon arbrofi a gwreiddio arferion ar lawr dosbarth. Fel rhan o'r 'Rhaglen Gymell' mae athrawon yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i fynychu sesiynau dysgu proffesiynol buddiol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau datblygu addysgu a bennir gan arweinwyr addysgeg yr ysgol. Yn ogystal, mae sesiynau un-i-un yn darparu cefnogaeth defnyddiol i ymateb i flaenoriaethau personol a phynciol unigolion. Mae'r rhaglen hon o ddatblygiad proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu yn ogystal â safonau cyflawniad y disgyblion mewn meysydd megis eu medrau llafaredd a'u geirfa.

Mae gan bron bob un athro berthynas waith cadarnhaol gyda disgyblion ac maent yn sicrhau eu hymrwymiad yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae awyrgylch cefnogol a gweithgar sy'n galluogi llawer o ddisgyblion i gyfrannu'n frwd ar lafar wrth gynnig atebion a thrafod gyda'u cyfoedion. Mae gan ran fwyaf o'r athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cyflwyno cyfarwyddiadau ac esboniadau clir.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol sydd yn adeiladu ar ei gilydd er mwyn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn cyflwyno gwybodaeth bynciol yn frwdfrydig a defnyddiant adnoddau dengar i gefnogi'r addysgu. Mae'r athrawon hyn yn fodelau iaith da sy'n cyflwyno a chyfoethogi geirfa'r disgyblion yn effeithiol. Holant gyfuniad o gwestiynau caeedig ac agored er mwyn helpu disgyblion i adalw gwybodaeth flaenorol yn briodol. Mae'r athrawon hyn yn cylchu'r dosbarth yn gyson er mwyn gwirio dealltwriaeth disgyblion o'r gwaith gan gynnig adborth llafar ddefnyddiol.

Yn yr ychydig wersi ble mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae angerdd yr athrawon tuag at eu pwnc yn ysbrydoli disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio'n fedrus er mwyn tanio diddordeb disgyblion a dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o'r hyn gall ddisgyblion gyflawni ac maent yn eu herio yn effeithiol iawn. Defnyddiant sgaffaldiau a strategaethau modelu yn ddoeth i gefnogi'r dysgu yn bwrpasol. Maent yn cwestiynu disgyblion yn dreiddgar ac yn eu datblygu yn ddysgwyr gynyddol annibynnol. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cryf a buan.

Mewn lleiafrif o wersi mae addysgu llai cadarn yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant. Nid yw'r athrawon hyn yn strwythuro'r dysgu yn ddigon cadarn fel bod cyfleoedd i ddisgyblion adeiladu eu gwybodaeth a dealltwriaeth fesul cam er mwyn ei gymhwyso i brif dasg y wers. Maent yn cynnwys cyflwyniadau sydd yn rhy hir, gweithgareddau ble nad yw eu pwrpas yn glir neu ddiffyg modelu gwaith.

Mae ansawdd yr adborth mae athrawon yn gosod ar waith disgyblion yn parhau i fod yn amrywiol. Yn y mwyafrif o enghreifftiau mae'r adborth yn cynnig arweiniad pendant a chlir i ddisgyblion sydd yn eu helpu i wella'u gwaith. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'r targedau pwrpasol trwy glustnodi amser iddynt ymateb. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y cynnydd a wnânt. Mae mwyafrif yr athrawon yn tynnu sylw at gamgymeriadau sillafu termau pynciol gan sicrhau bod disgyblion yn eu cywiro. Ble nad yw adborth athrawon mor ddefnyddiol, mae sylwadau yn rhy gyffredinol i helpu disgyblion i wella eu gwaith. Mewn ychydig achosion ble defnyddir strategaethau asesu cyfoed, nid yw disgyblion pob amser yn deall y meini prawf llwyddiant yn ddigon clir er mwyn cynnig adborth defnyddiol yw cyfoedion.

### A3. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

Ers yr arolygiad craidd mae'r ysgol wedi cryfhau ei darpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r ysgol yn gweithredu strategaethau buddiol i ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm ac maent yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau disgyblion. Ers mis Medi 2022 mae cydlynwyr parhaol ar gyfer pob un o'r medrau, gyda phennaeth cynorthwyol yn cadw trosolwg ac yn reolwr llinell arnynt. Mae cyfarfodydd cyson rheoli llinell yn sicrhau bod strategaethau yn cael eu monitro'n briodol er mwyn ystyried eu heffaith ar safonau disgyblion.

Yn gyffredinol, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae uwch arweinwyr wedi darparu sesiynau dysgu proffesiynol defnyddiol i staff er mwyn datblygu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio

eu medrau llafar. Mae’r hyfforddiant buddiol hyn yn cynnwys strategaethau holi disgyblion, strategaethau defnyddiol i wella geirfa bynciol ac arweiniad i gefnogi cystrawen disgyblion. Mae’r cynnydd yn y cyfleoedd a roddir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd cyfraniadau llafar a geirfa llawer o ddisgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae'r gwaith i ddatblygu medrau llythrennedd wedi canolbwyntio’n synhwyrol ar ddarpariaeth mewn adrannau galw uchel fel addysg grefyddol, daearyddiaeth a hanes. Yn y pynciau hyn mae cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae arweinwyr wedi cydweithio gyda’r adrannau er mwyn datblygu tasgau sydd yn adlewyrchu'r modd mae'r adrannau iaith yn addysgu disgyblion i ysgrifennu gwahanol fathau o destunau. Er enghraifft, ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a phwrpasau wrth fynegi barn, ysgrifennu ymson, gwerthuso a llunio llythyrau. Mae’r gwaith hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ymatebion mwyafrif y disgyblion. Serch hyn, mae gwendidau yn parhau yn safonau ysgrifennu’r disgyblion gyda gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg yn britho gwaith lleiafrif y disgyblion. Yn gyffredinol, er bod sylw yn cael ei roi i sillafu termau, nid oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar wella mynegiant a chystrawen disgyblion.

Trwy gydweithio’n agos gyda phenaethiaid pwnc, mae arweinwyr wedi mapio’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd a TGCh disgyblion yn addas ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ansawdd y tasgau. Ers dychwelyd i’r ysgol yn dilyn y pandemig, maent wedi cydweithio er mwyn gwella’n briodol y ddarpariaeth a oedd eisoes yn bodoli ac ehangu ymhellach ar y cyfleoedd. O ganlyniad, mewn pynciau perthnasol mae ystod addas o gyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu’u medrau rhifedd a TGCh. Mae’r adran fathemateg wedi diwygio eu cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhesymu a datrys problem. Fodd bynnag, nid oes digon o bwyslais o fewn mathemateg nac ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu’r medrau hyn.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o ddata perthnasol er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella o ran safonau rhifedd disgyblion. Yn ogystal, gwneir defnydd priodol o ddata er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach gyda medrau rhifedd a darllen sylfaenol. Mae gan yr ysgol raglen ymyrraeth addas ar gyfer cefnogi disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan.

Mae arweinwyr yn monitro’r ddarpariaeth ar gyfer y medrau yn ofalus trwy weithgareddau fel craffu ar waith, arsylwi gwersi a dadansoddi data. Bellach, mae ganddynt well adnabyddiaeth o gryfderau a gwendidau yn y ddarpariaeth nac ar amser yr arolygiad craidd.  Maent yn blaenoriaethu a chynllunio’n bwrpasol ar gyfer gwella meysydd pwysig megis medrau llafar a darllen. Mae’r cynllunio hwn yn dechrau cael effaith ar fedrau disgyblion.

## A4. Gwella ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth ar bob lefel

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi wynebu cyfnodau ansefydlog o ran arweinyddiaeth. Bellach, mae pennaeth parhaol wedi ei benodi yn dilyn cyfnod ble gweithredodd fel pennaeth cefnogol. Mae ganddo weledigaeth glir a gyda chymorth gweddill yr uwch dím arwain mae wedi datblygu diwylliant o gydweithio a chyd-dynnu i sicrhau gwelliant. O dan eu harweiniad, datblygwyd strwythurau a phrosesau i fynd i’r afael â meysydd pwysig gan gynnwys hunan werthuso a chynllunio ar gyfer

gwella, addysgu a'r medrau. O ganlyniad, mae gwelliant yn safonau disgyblion ac yn ansawdd y ddarpariaeth o'i gymharu ag adeg yr arolygiad craidd.

Mae strwythur rhesymegol i'r uwch dim arwain ac mae eu dyletswyddau wedi'u dosrannu'n synhwyrol fel bod cydbwysedd addas. Mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a rolau aelodau eraill o'r tîm ac maent yn gweithio'n agos a chynhyrchiol i ddatblygu eu meysydd. Dros gyfnod, bu arweinwyr yn canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff mewn rolau allweddol trwy weithredu cynlluniau olyniaeth.

Mae eleni'n gyfnod o drosglwyddo o un strwythur arweinyddiaeth i strwythur newydd i ffurfio cyfadrannau i gyd-fynd â meysydd dysgu a phrofiad ac aildrefnu'r cyfrifoldebau bugeiliol. Mae arweinwyr ar bob lefel bellach yn cydweithio'n fuddiol trwy dimau gwahanol sy'n ffocysu ar agweddau penodol fel addysgu a dysgu, datblygu'r cwricwlwm a lles a chynhwysiant. Mae llinellau cyfathrebu clir rhwng uwch arweinwyr, arweinwyr canol a'r staff ehangach sy'n llwyddo i gynnal ethos cadarnhaol a meithrin ymdeimlad o gydweithio.

Mae arweinwyr canol yn deall eu rolau yn addas ac yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am weithredu prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso eu hadrannau. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen dysgu broffesiynol werthfawr er mwyn datblygu medrau arweinwyr canol i arfarnu safonau medrau disgyblion ac addysgu. Mae uwch arweinwyr yn eu dwyn yn atebol yn briodol trwy eu herio am safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r ysgol wedi diwygio'r drefn rheoli perfformiad i gyd-fynd â'r strwythur staffio arfaethedig ac mae'r targedau iddynt yn addas a synhwyrol. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael a thanberfformio staff yn addas. Mae arweinwyr yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol sy'n ymateb i'w anghenion unigol ar gyfer gwella eu medrau arwain ac addysgu. Mae arweinwyr ar bob lefel yn elwa o gyfleoedd buddiol i drafod addysgeg trwy'r rhaglen gymell. Maent yn cydweithio i ddatblygu addysgeg yn eu hadrannau gan rannu arferion addysgu mewn cyfarfodydd adran a chyfarfodydd cyswllt rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu a medrau'r disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn wybodus ac yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ysgol. Maent yn chwarae rhan weithredol wrth arfarnu cynnydd yn erbyn cynllun gwella'r ysgol ac yn herio arweinwyr yn gadarn.

### A5. Gwella'r trylwyredd ac effeithiolrwydd y prosesau gwella ansawdd

Ers yr arolygiad craidd mae arweinwyr wedi cyflwyno newidiadau buddiol i'r drefn ar gyfer gwella ansawdd. Maent wedi rhoi pwyslais clir ar gryfhau medrau arweinwyr canol yn arbennig, ynghyd a chanolbwyntio mwy ar y cynnydd wna'r disgyblion yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau  o fewn prosesau sicrhau ansawdd.

Erbyn hyn, mae ystod ehangach o randdeiliaid yn rhan o brosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion leisio eu barn ar addysgu ar lefel adrannol ac mae adrannau yn gwneud addasiadau yn sgil y canfyddiadau. Mae llywodraethwyr yn fwy gwybodus am waith yr ysgol trwy system newydd ar gyfer llywodraethwyr cyswllt ac mae enghreifftiau clir ohonynt yn herio gwaith yr ysgol. Mae staff yn cael budd o gyfleoedd gwerthfawr i arsylwi a rhoi adborth i'w gilydd, ac i

arfarnu eu gwaith eu hunain trwy ddadansoddi data perthnasol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaid allanol er mwyn dilysu a chysoni ei chanfyddiadau, ac er mwyn ategu at ei rhaglen ddatblygiad proffesiynol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfundrefn newydd o adolygiadau adran defnyddiol. Mae arweinwyr canol yn cymryd perchnogaeth o'r gweithgareddau hyn ac maent wedi esblygu a chryfhau'r broses ers ei chyflwyno, wrth iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r adolygiadau yn cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith a chyrchu barn disgyblion a staff. Mae arweinwyr canol wedi derbyn hyfforddiant gwerthfawr ar hunanwerthuso ac wedi arsylwi a chraffu ar y cyd ag uwch arweinwyr a phartneriaid allanol. Mae'r canfyddiadau o'r arolygiadau yn ddefnyddiol ac yn darparu trosolwg buddiol o waith adrannau a sylfaen werthfawr ar gyfer cynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn mae arweinwyr canol wedi gwella eu dealltwriaeth o berfformiad o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, er bod lleiafrif yn parhau i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon.

Mae gweithgareddau sicrhau ansawdd ysgol gyfan mwy diweddar â gwell ffocws ar safonau disgyblion, yn ogystal â'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae canfyddiadau teithiau dysgu yn adnabod yn benodol yr agweddau o ran medrau disgyblion sydd angen eu gwella. O'r herwydd, mae arweinwyr wedi rhoi strategaethau yn eu lle a gwelir effaith cadarnhaol hyn ar, er enghraifft, fedrau llafar disgyblion. Mae arweinwyr canol hefyd yn canolbwyntio'n well ar safonau disgyblion, ond mae hyn yn parhau yn faes i wella ar gyfer rhai ohonynt wrth iddynt graffu ar waith ac arsylwi gwersi.

Mae arweinwyr wedi diwygio'r drefn ar gyfer cyfarfodydd gan adnabod eu bod yn canolbwyntio ar ormod o bethau. O ganlyniad, mae cyfarfodydd rheolwr llinell ac, i raddau llai, adrannol nawr yn hoelio sylw ar ddysgu ac addysgu ac yn cynnwys gweithgareddau gwerthfawr fel cyd-graffu ar lyfrau.

O ganlyniad i gryfhau cyfundrefnau hunanwerthuso mae gan uwch arweinwyr adnabyddiaeth dda o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae cynllunio ar gyfer gwella ar lefel ysgol gyfan yn adlewyrchu'r adnabyddiaeth hon ac adolygir cynnydd yn erbyn blaenoriaethau yn gyson. Mae cynllunio gwella adrannol yn cynnwys blaenoriaethau adrannol sy'n seiliedig ar waith hunanwerthuso arweinwyr canol a'u hadrannau ond hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau ysgol gyfan ble bo hynny'n synhwyrol. Golyga hyn bod cynllunio gwella yn fwy perthnasol i waith adrannau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion mae gormod o flaenoriaethau yn y cynlluniau hyn.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**